Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Mared a Mr Alan Gwyn-Jones ar enedigaeth eu merch fach, Seirian Rhodd. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i weld Mrs Mared Gwyn-Jones a Seirian Rhodd yn fuan iawn.

Dymuniadau gorau
Pob hwyl i Mrs Cerys Roberts ar ei chyfnod mamolaeth. Mi fydd y plant a'r staff yn gweld ei cholli.

Croeso
Croeso cynnes i Miss Eleri Davies i Ysgol Tregarth.
Mae Miss Eleri Davies yn dod atom i ddysgu Blwyddyn 5 a 6 dros gyfnod mamolaeth Mrs Cerys Roberts. Rydym yn siŵr y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Eleni, rydym yn croesawu 16 o blant i'r Dosbarth Meithrin. Mae pawb wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod i'r ysgol bob prynhawn. Pob hwyl i bob un ohonynt ar gychwyn eu taith yn yr ysgol. Rydym hefyd yn falch o gael cwnni disgyblion y Dosbarth Derbyn yn yr ysgol trwy'r dydd. Maent hwythau wedi setlo'n gret ac yn mwynhau bod yma trwy'r dydd a chael cinio ysgol! Croeso hefyd i 4 plentyn newydd i'r Dosbarth Derbyn, sef Lana, Anwn, Bonnie a Jessica.

Croesawn Katie May Wilkinson i ddosbarth Tryfan yn ysgol Tregarth. Mae Katie wedi symud o ysgol Pen y Bryn Bethesda ac yn ymuno â Mr Walton a gweddill plant y dosbarth, pob hwyl iddi ym mlwyddyn 3. Edrychwn ymlaen at flwyddyn llawn hwyl a gwaith diddorol.

Croeso cynnes i Jessica Hogan sy'n ymuno â Miss Davies a gweddill plant dosbarth Ogwen eleni. Mae Jessica wedi symud o Ysgol Llandygai ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd yn yr ysgol yn barod. Pob hwyl iddi ym mlwyddyn 6.